

Cyfadran Addysg a Addysg Gydol Oes a Hamdden

Directorate of Education and Lifelong Learning

Cod Ymddygiad Lleol Hysbysiadau Cosb Benodedig Addysg

Awdur	Linda Perkins
Ymgynghoreion	UDRh
Pasiwyd gan UDRh (Dyddiad)	2/10/18
Cyhoeddwyd (Dyddiad)	2/10/18
Adolygiad nesaf (Dyddiad)	Medi 2019

A greener place
Man gwyrddach



*This publication is available in Welsh, and in other languages and formats on request.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.*
Diwygiwyd 2018

Cynnwys

1.0 Y Fframwaith Cyfreithiol	3
2.0 Rhesymeg	3
3.0 Hysbysiadau Preifatrwydd	4
4.0 Polisi a Chyhoeddusrwydd	4
5.0 Monitro ac Adolygu.....	4
Atodiad 1 – Protocolau a Gweithdrefnau mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig.....	5
Atodiad 2 – Llythyr Rhybudd Enghreifftiol i Ysgolion	10
Atodiad 3 – Cais am Hysbysiad Cosb Benodedig i'r Awdurdod Lleol.....	11
Atodiad 4 – Deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig.....	13

1.0 Y Fframwaith Cyfreithiol

Mae'r gyfraith yn rhoi grym i Swyddogion dynodedig Awdurdodau Lleol, penaethiaid, yn cynnwys y dirprwyon a enwebwyd ganddynt, a'r Heddlu i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i rieni plant sy'n absennol o'r ysgol heb awdurdod sydd o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Amlinellir y rheolau sy'n llywodraethu gweithrediad y pwerau hyn a'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth roi Hysbysiad Cosb Benodedig yn:

- Neddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb)(Cymru) 2013;

CBSC sy'n gyfrifol am ddatblygu protocol y bydd pob asiantaethau partner a enwyd mewn deddfwriaeth yn gweithio ar y cyd yn unol ag ef.

Gweithredwyd y Cod Lleol ym Medi 2014. Bydd disgwyl i ysgolion ddiweddarau polisïau presenoldeb perthnasol yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddiwygiadau i bolisïau ALI neu God Lleol.

Trwy'r ddogfen hon, mae'r term 'ysgol' yn cynnwys pob ysgol/sefydliad addysgol ac addysg arall ac eithrio darpariaethau Fframwaith Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS).

2.0 Rhesymeg

Mae Adran 7 Deddf Addysg 1996 yn nodi:

"Bydd rhiant pob plentyn oedran ysgol gorfodol yn sicrhau y caiff addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w oedran, dawn, gallu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo, naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall"

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon gan ddisgyblion yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen yn ofyniad cyfreithiol ac mae'n hanfodol er mwyn i blant wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

Mae tystiolaeth yn dangos fod plant â phresenoldeb gwael yn annhebygol o lwyddo'n academaidd ac maent yn fwy tebygol o fod yn unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae pobl ifanc sydd yn NEET yn fwy tebygol o fod â hanes o ddiffyg presenoldeb ac absenoldeb parhaus ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

Mae adran 444 Deddf Addysg 1996, yn ei gwneud yn drosedd i riant fethu â sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol lle maent wedi'u cofrestru, a lle nad yw'r ysgol wedi awdurdodi'r absenoldebau.

Yng nghyfraith addysg, mae'r diffiniad o "riant" yn cynnwys pob rhiant biolegol, boed yn briod ai peidio, ac y mae'n cynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu'n gofalu am blentyn neu berson ifanc o ddydd i ddydd, waeth beth yw eu perthynas.

Mae ymyrraeth wedi'i dargedu yn hollbwysig wrth ddatrys materion yn ymwneud â phresenoldeb gwael yn yr ysgol, fodd bynnag, lle nad yw hyn yn cael yr effaith a ddymunir, mae nifer o gosbau ar gael i Awdurdodau Lleol i geisio sicrhau gwelliant.

Hysbysiadau Cosb Benodedig yw un o'r cosbau sydd ar gael ar gyfer y drosedd hon ac maent yn cynnig dull o ymyrraeth addas ac effeithiol er mwyn gwella lefelau absenoldeb heb eu hawdurdodi, cyn iddynt ddod yn absenoldebau parhaus ac ymwreiddio, gan leihau'r angen am erlyniadau hir a chostus.

Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig a chosbau eraill ond yn cael eu defnyddio lle nad yw'r rhieni'n cydweithredu o gwbl â'r broses hon neu os ystyrir bod eu cydweithrediad yn annigonol i ddatrys y broblem. Byddant yn cael eu defnyddio fel modd o gefnogi rhieni i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol a dim ond lle mae'n rhesymol disgwyl y bydd eu defnyddio yn sicrhau gwell presenoldeb.

3.0 Hysbysiadau Preifatrwydd

Cofnodi a phrosesir gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lles Addysg, ynghyd gan unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan ysgolion, disgyblion, rhieni/gofalwyr neu sefydliadau eraill gan yr ALI yn unol â'r rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar CBSC a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1996, Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a Deddf Plant 1989.

Mae gwybodaeth lawn ynglŷn â sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i defnyddio ar gael ar ffurf hysbysiad preifatrwydd llawn ar www.caerphilly.gov.uk

4.0 Polisi a Chyhoeddusrwydd

Bydd Polisiâu Presenoldeb Ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am roi Hysbysiadau Cosb Benodedig a thynnir sylw rhieni at hyn.

5.0 Monitro ac Adolygu

Bydd CBSC yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd Hysbysiadau Cosb Benodedig bob blwyddyn ac yn diwygio ei strategaeth orfodi gyffredinol fel y bo'n briodol. Bydd adroddiadau blynyddol ar gael i'r Pennaeth Gwasanaeth, y Pwyllgor Strategaeth a Llywodraeth Cymru fel y bo angen.

Atodiad 1 – Protocolau a Gweithdrefnau mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig

Rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig

- Dim ond yn dilyn achosion o absenoldeb heb awdurdod y gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig;
- Cyfyngir y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig i un rhiant mewn teulu ac un hysbysiad mewn unrhyw flwyddyn academaidd;
- Mewn achosion lle mae presenoldeb mwy nag un disgybl o'r un teulu yn wael, gellir rhoi hysbysiadau ar gyfer mwy nag un plentyn;
- Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall rhiant dderbyn **rhybudd** ffurfiol o Hysbysiad Cosb Benodedig.

Gellir ystyried bod Hysbysiadau Cosb yn briodol pan

- Gollwyd o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd absenoldeb heb ei awdurdodi yn ystod cyfnod treigl o 12 wythnos. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn olynol;
- Absenoldebau heb eu hawdurdodi am o leiaf 10 sesiwn olynol (5 diwrnod ysgol) o ganlyniad i absenoldeb/gwylliau a gymerwyd yn ystod y tymor neu oedi wrth ddychwelyd o wyliau estynedig heb eglurhad rhesymol; neu;
- Gyrraedd yr ysgol yn hwyr yn barhaus, h.y. ar ôl cau'r gofrestr, yn ystod cyfnod treigl o 12 wythnos. Mae "Parhaus" yn golygu cyrraedd yn hwyr i o leiaf 10 sesiwn (absenoldeb cod U);
- Mewn amgylchiadau lle ystyrir bod y rhiant neu'r gofalwr yn gallu sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn neu wybod lle mae ond nad yw'n fodlon cymryd y cyfrifoldeb am wneud hynny, e.e. bod y rhiant/gofalwr yn anfodlon arwyddo cynllun cefnogi neu gytundeb gyda'r ysgol a bod presenoldeb yn is na lefel derbyniol (fel y gosodwyd gan yr ysgol) am gyfnod o amser y cytunwyd arno, heb gyfiawnhad rhesymol;
- Triwantiaeth, pan fo'r plentyn wedi dod i sylw'r Heddlu neu'r cyhoedd yn ystod oriau ysgol oherwydd ei fod/bod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

Hysbysiad Cosb Benodedig yn gysylltiedig â gwylliau heb eu hawdurdodi/cais i fod yn absennol

Bydd yr ALI yn ystyried cais gan ysgol os yw'r absenoldebau'n cynnwys rhai sy'n gysylltiedig ag absenoldebau'n ymwneud â gwylliau heb eu hawdurdodi os yw'r ysgol wedi darparu'r dystiolaeth angenrheidiol. Dylai'r dystiolaeth hon gynnwys:

- Datganiad a thystysgrif cofrestru wedi'i arwyddo gan y Pennaeth neu ddirprwy enwebedig, yn cadarnhau bod yr absenoldeb yn ystod y cyfnod heb ei awdurdodi;

- Copi o lythyr cais neu ffurflen gan y rhiant a'r llythyr ymateb a anfonwyd gan yr ysgol at y rhiant, yn dweud nad yw'r ysgol wedi awdurdodi absenoldeb neu gais am wyliau.

Ystyriaethau ac asesiadau o ran a ddylid rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig.

Bydd Penaethiaid, eu dirprwyon enwebedig a'r Gwasanaeth Lles Addysg yn ystyried y canlynol wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad cosb benodedig:

- Lefel yr absenoldeb yn ystod y flwyddyn bresennol a'r flwyddyn academaidd flaenorol;
- Unrhyw ystyriaethau Cydraddoldeb sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r teulu (fel y rhestrir ym Mholisi Cydraddoldeb y Cyngor);
- Unrhyw Anghenion Addysgol Arbennig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dylai ALI ystyried p'un ai yw'r problemau presenoldeb yn gysylltiedig ag ALY y disgybl. Dylai ysgolion allu dangos eu bod wedi gwneud darpariaeth briodol ar gyfer anghenion y disgybl, a allai gynnwys ystyried cefnogaeth drwy Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar y cyd â'r ALI, i gynnal asesiad statudol.
- Hanes o faterion presenoldeb a'r camau a gymerwyd;
- Canllawiau Llywodraeth Cymru (LIC);
- Y tebygolrwydd y bydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn arf effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth;
- Lefel ymgysylltu/cydweithredu'r rhiant;
- Unrhyw effaith andwyol sylweddol y byddai dirwy yn ei gael ar les y teulu.

Gweithdrefn ar gyfer Rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig

Y swyddog(ion) penodedig yn y Gwasanaeth Lles Addysg fydd yr unig rai a ganiateir i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth gyson a theg ac yn caniatáu i ysgolion gynnal perthynas dda gyda'r rhieni a sicrhau eu bod yn atgyfnerthu unrhyw gosbau gorfodi eraill.

Ni fydd ALI yn dod i'r casgliad bod ambell gyfiawnhad ar gyfer absenoldebau'n awtomatig yn afresymol. Ystyrir bob achos ar sail ei rinweddau a bydd yr holl dystiolaeth berthnasol a ddarparwyd gan yr ysgol a'r rhiant neu'r gofalwr yn cael ei hystyried.

Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig byth yn cael eu rhoi fel gweithred ar unwaith, e.e. yn ystod Cyrch Triwantiaid. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod yr

holl dystiolaeth ofynnol yn ei lle a bydd yn cyfyngu ar y risgiau iechyd a diogelwch i unigolion.

Hysbysu'r rhiant(rhieni)/gofalwr/(gofalwyr) yn ffurfiol

Ar ddechrau'r gwaith achos gan yr ysgol, dylid rhoi hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol i'r rhiant(rhieni)/gofalwr/(gofalwyr) yn egluro'r camau y gellid eu cymryd fel yn **Atodiad 2**. Mae'n arfer da caniatáu cyfnod o 15 diwrnod ysgol i'r rhiant(rhieni)/gofalwr/(gofalwyr) wella'r sefyllfa cyn gofyn am Hysbysiad Cosb Benodedig.

Hefyd mae'n arfer da sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall canlyniadau peidio â sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn ac y gallai'r achos arwain at Hysbysiadau Cosb Benodedig a/neu eu herlyn.

Ceisiadau i roi Hysbysiad Cosb Benodedig

Lle mae ysgolion, yr Heddlu neu ALI cyfagos yn gwneud cais i roi Hysbysiad Cosb Benodedig, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymchwilio a gweithredu ar eu cais, ar yr amod bod:

- Amgylchiadau'r achos yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Cod Ymddygiad hwn;
- Y disgybl wedi ei gofrestru yn un o ysgolion ardal CBSC;
- Yr holl dystiolaeth angenrheidiol wedi'i darparu i'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn sefydlu a gyflawnwyd trosedd o dan Adran 444(1) neu 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996 neu Adran 108 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006;
- Na fyddai rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig yn gwrthdaro â strategaeth ymyrraeth arall sydd eisoes ar waith neu gosb gorfodi arall sydd eisoes yn cael ei phrosesu a bod disgwyliad rhesymol y byddai defnyddio Hysbysiad Cosb Benodedig yn gwella presenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

Ymateb i geisiadau i roi Hysbysiad Cosb Benodedig

Yn dilyn rhybudd a roddir gan yr ysgol neu'r Heddlu, ni ddylai'r disgybl gael unrhyw absenoldeb heb ei awdurdodi o fewn y cyfnod gwella 15 diwrnod.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymateb o fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn cais a phan fo'n fodlon bod yr holl feini prawf perthnasol wedi eu bodloni, bydd yn rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig.

Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer gwyliau heb eu hawdurdodi

Lle y gofynnir am Hysbysiad Cosb Benodedig gan yr ysgol mewn ymateb i absenoldeb heb ei awdurdodi ar gyfer gwyliau, neu mewn perthynas â throstedd dan adran 108 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, ni fydd y llythyr rhybudd ffurfiol a'r cyfnod gwella 15 diwrnod yn berthnasol.

Monitro ac Adolygu

Cofnodir pob Hysbysiad Cosb Benodedig ar gronfa ddata a fydd yn cael ei chynnal gan yr ALI i werthuso effeithiolrwydd y broses.

Disgyblion sydd wedi'u Gwahardd

Nid yw sail pwerau hysbysiad cosb benodedig yn berthnasol i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd. Daeth Adran 108 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i rym ym mis Hydref 2010 ac mae'n diwygio adran 16 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i ymestyn pwerau'r heddlu i symud plant sydd wedi'u gwahardd i eiddo dynodedig os canfyddir plentyn neu unigolyn sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol mewn man cyhoeddus o fewn ardal benodol yn ystod cyfnod penodol ac yn ystod oriau'r ysgol.

Gweithdrefn ar gyfer Dileu Hysbysiad Cosb Benodedig

Ar ôl ei roi, gellir ond dileu Hysbysiad Cosb Benodedig os yw'r Gwasanaeth Lles Addysg yn fodlon bod:

- Yr Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'i roi i'r person anghywir;
- Nad oedd y defnydd o'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn
- Yr Hysbysiad Cosb Benodedig wedi'i anfon i'r cyfeiriad anghywir;
- Roedd gwallau sylweddol yn yr hysbysiad;
- Bod rhiant yn gallu cyfiawnhau'r absenoldeb trwy dystiolaeth feddygol o'r salwch;
- Y cyfnod talu wedi dod i ben ac nad yw'r ALI yn bwriadu cychwyn achos cyfreithiol yn gysylltiedig â'r Hysbysiad Cosb. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os oes dystiolaeth i awgrymu y byddai tariff haen uwch fel y gorfodir gan y Llys yn cael effaith andwyol sylweddol ar les y teulu.

Hawl i Apelio

Nid oes unrhyw hawl statudol i apelio, ond pan fo rhiant yn herio Hysbysiad Cosb Benodedig a roddwyd, gallant gyflwyno unrhyw gwynion neu dystiolaeth arall i'r Gwasanaeth Lles Addysg a/neu ddewis wynebu achos yn Llys yr Ynadon dan Adran 444 Deddf Addysg 1996 lle bydd yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'u Hysbysiad Cosb Benodedig a phresenoldeb anghyson yn yr ysgol yn cael eu trafod yn llawn.

Talu Hysbysiad Cosb Benodedig

Bydd y trefniadau ar gyfer talu wedi eu cynnwys ar yr Hysbysiad Cosb. Mae talu Hysbysiad Cosb Benodedig yn cyflawni ymrwymiad y rhiant ar gyfer y cyfnod dan sylw ac ni ellir eu herlyn yn ddiweddarach dan rymoedd gorfodi eraill am y cyfnod dan sylw yn yr Hysbysiad Cosb Benodedig.

Os bydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei dalu o fewn 28 diwrnod, y gosb sy'n daladwy yw £60 neu £120 os yw'n cael ei dalu o fewn 42 diwrnod. Ni dderbynnir talu mewn rhandaliadau.

Bydd yr ALI yn cadw digon o refeniw ar gyfer costau gweinyddu'r broses o roi Hysbysiadau Cosb Benodedig, caiff y gweill ei roi yng nghronfa gyfun Cymru.

Peidio â Thalu Hysbysiad Cosb Benodedig

Os na thelir Hysbysiad Cosb Benodedig, bydd yr ALL yn defnyddio'r ffaith bod yr hysbysiad wedi'i roi a heb ei dalu fel tystiolaeth mewn erlyniad dilynol am y cyfnod sydd wedi'i gynnwys gan y cynllun o dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Wrth roi Hysbysiadau Cosb Benodedig, rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cysylltiedig eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd teg a chyson a bod sylw priodol wedi'i roi i amgylchiadau'r plentyn/plant a'r teuluoedd dan sylw. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol:-

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Polisi Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn ymdrin â'r ystod lawn o faterion a allai fod angen eu hystyried, gan ddibynnu ar yr achos unigol.

Atodiad 2 – Llythyr Rhybudd Enghreifftiol i Ysgolion

Annwyl (enw'r rhiant)

Enw'r disgybl:

Dyddiad geni:

Dyddiad:

Rwyf wedi adolygu cofnod presenoldeb eich plentyn ac rwy'n bryderus bod ganddo/ganddi 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) o absenoldeb heb eu hawdurdodi mewn cyfnod treigl o 12 wythnos.

Rwy'n amgáu copi o gofnod presenoldeb eich plentyn ac yn eich atgoffa bod gennych chi, fel rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr) y plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol hon, gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod eich plentyn yn bresennol yn rheolaidd a phrydlon.

Mae pob ysgol yn rhannu penderfyniad Llywodraeth Cymru i godi lefelau presenoldeb a chyrrhaeddiad disgyblion er mwyn sicrhau y dechrau gorau posibl mewn bywyd i'n plant.

O dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996, mae pŵer gan yr Awdurdod Lleol i roi Hysbysiad Cosb Benodedig i rieni/gofalwyr ar gyfer pob un o'u plant, sy'n methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhybudd cynnar gyda'r bwriad o atal mwy o gyfnodau estynedig o absenoldeb heb eu hawdurdodi ac mae dirwy o £120, neu £60 os telir ef o fewn 28 diwrnod i dderbyn y rhybudd. Os na fyddwch yn talu'r hysbysiad cosb gallai arwain at erlyniad o dan Ddeddf Addysg 1996.

Felly rwy'n eich hysbysu y bydd yr ysgol yn monitro presenoldeb eich plentyn am 15 diwrnod ysgol o ddyddiad y llythyr hwn ac os bydd rhagor o absenoldebau heb eu hawdurdodi, ystyrir rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig i chi.

Mae cefnogaeth a chanllawiau ynglŷn â phresenoldeb ar gael gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol am y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi ar y rhif ffôn uchod.

Yn gywir

Pennaeth

Atodiad 3 – Cais am Hysbysiad Cosb Benodedig i'r Awdurdod Lleol

CAIS AM HYSBYSIAD COSB BENODEDIG Adran 444, Deddf Act 1996

Bydd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y ffurflen yn cael ei defnyddio mewn achos cyfreithiol o dan y Ddeddf uchod mewn perthynas â diffyg presenoldeb os bydd Rhybudd Cosb Addysg a roddwyd yn dal heb ei dalu. Gofynnaf i'r Awdurdod Lleol ystyried rhoi Hysbysiad Cosb i riant (rhieni)* y disgybl a ganlyn:

Manylion y Disgybl

Ysgol Gofrestredig:

Enw'r Disgybl: Dyddiad Geni: Blwyddyn CC:

Cyfeiriad:

Manylion y Rhiant:

Enw llawn: Dyddiad Geni:

Cyfeiriad:

Cyfeiriad: (os yw'n wahanol i uchod)

Dyddiadau absenoldeb:

Roedd y disgybl a enwir uchod yn absennol o'r ysgol ar y dyddiadau canlynol ac fe'i cofnodir yn y gofrestr ysgol fel rhai heb eu hawdurdodi.

(Amgawch dystysgrif cofrestru yn dangos y cyfnod)

Sut gysylltwyd â'r rhiant ynghylch yr absenoldebau heb eu hawdurdodi?

Cyfarfod ysgol Llythyr Galwad ffôn

Os yw absenoldebau'n cynnwys absenoldeb neu wyliau heb eu hawdurdodi, dylech gadarnhau p'un ai:

- Y gwnaed cais i awdurdodi'r absenoldeb neu wyliau gan y rhieni cyn y gwyliau: Do/Naddo.
- Bod yr ysgol wedi ymateb yn ysgrifenedig yn gwrthod awdurdodi'r gwyliau: Do/Naddo.
- Nid yw disgybl wedi dychwelyd i'r ysgol erbyn y dyddiad y cytunwyd arno ac ni dderbyniwyd eglurhad boddhaol: Do/Naddo

Atodwch gopiâu o'r cais ac ymateb yr ysgol, yn gwrthod y cais.

- A yw'r teulu yn hysbys i unrhyw Wasanaethau eraill¹, e.e. Gwasanaethau Plant, Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc, CAMHS? Ydi / Nac ydi
- A oes unrhyw amgylchiadau arbennig i'w hystyried, e.e. iechyd meddwl, profedigaeth, deinameg teuluol / trais yn y cartref? Oes / Nac oes

Os oes, rhowch fanylion llawn:

Mae'r term "rhiant", mewn perthynas â phlentyn neu unigolyn ifanc, yn cynnwys unrhyw un nad yw'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto/drosti, neu sy'n gofalu am y plentyn.

Datganiad

Trwy wneud y cais hwn, rwy'n cadarnhau na fyddai camau tebyg yn gwrthdaro â strategaethau ymyrryd eraill sydd eisoes mewn lle neu fesurau gorfodi eraill sydd eisoes yn cael eu prosesu. Gallaf gadarnhau hefyd fod corff llywodraethu'r ysgol hon wedi adolygu ei bolisi presenoldeb a chytuno y bydd yr ysgol hon yn gwneud cais i'r Awdurdod Lleol roi Hysbysiad Cosb Benodedig mewn achosion priodol.

Llofnod:

Lleoliad:

Dyddiad:

¹ Bydd yr ALL yn ystyried gwybodaeth a dderbyniwyd yn nhermau unrhyw ymyrraeth gan wasanaeth cefnogi a gall wrthod cais am HCB neu dynnu'n ôl HCB a roddwyd os ystyrir bod hynny'n briodol.

Atodiad 4 – Deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig

Mae deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cynnwys:

Deddf Plant 1989

Mae'r diffiniad o 'riant' yn golygu'r holl rieni biolegol, boed yn briod ai peidio; ac yn cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant, er nad ydynt yn rhiant biolegol ac / neu'n gofalu am blentyn neu berson ifanc.

Deddf Addysg 1996;

Adran 7 Dyletswydd rhieni i sicrhau addysg i blant oedran ysgol gorfodol;

Adran 8 Diffiniad o oedran ysgol gorfodol;

Adran 444(1) Trosedd: Methiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd disgybl a gofrestrwyd yn yr ysgol;

Adran 444A Hysbysiad cosb mewn perthynas â methiant i sicrhau presenoldeb rheolaidd disgybl a gofrestrwyd yn yr ysgol;

Adran 444B Hysbysiadau cosb: atodol;

Adran 444ZA Gweithredu adran 444 i ddarpariaeth addysgol amgen

Adran 576 Ystyr "rhiant"

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

Adran 103 Dyletswydd rhiant mewn perthynas â disgybl a waharddwyd.